RHONDDA CYNON TAF

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

# Amlosgfa Llwydcoed

Cofnodion cyfarfod rhithwir Amlosgfa Llwydcoed a gafodd ei gynnal ddydd Llun, 13 Gorffennaf 2020 am 2pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o Gydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd D Isaac (Cadeirydd)

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Y Cynghorydd D Chaplin a'r Cynghorydd M Colbran
**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Y Cynghorydd H Boggis   Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd A Crimmings   Y Cynghorydd G. Jones

**Swyddogion oedd yn bresennol**
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms J Lewis, Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau
Mr S Preddy, Cyfrifydd Grŵp
Mr C Pritchard, Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent/Goruchwyliwr yr Amlosgfa

## 21 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) a K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

## 22 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

## 23 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2019 yn rhai cywir, yn amodol ar nodi bod D.Isaac yn bresennol ar gyfer y cyfarfod.

## 24 CALENDR ARFAETHEDIG O GYFARFODYDD AR GYFER 2020–21

Cafodd aelodau gais i drafod amserlen arfaethedig o gyfarfodydd chwarterol y Cydbwyllgor ar gyfer blwyddyn 2020-21 y Cyngor.

Rhoddodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd wybod y byddai'n rhannu gwybodaeth ag Aelodau ynghylch sut y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r calendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn 2020-21 y Cyngor.

## 25 ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

Rhannodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau y newyddion diweddaraf ag Aelodau mewn perthynas â'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn lliniaru lledaeniad feirws Covid-19 a digwyddiadau yn ystod y pandemig.

Cafodd Aelodau wybod am y nifer cynyddol o amlosgiadau a ddigwyddodd oherwydd Covid-19 yn ystod mis Ebrill, Mai a Mehefin ym mhob un o'r 4 blynedd diwethaf, gan nodi'r cynnydd sylweddol yn nifer yr amlosgiadau yn hanner gyntaf 2020.

Diolchodd yr Aelodau i'r staff am eu holl waith caled a'u hymrwymiad yn ystod y cyfnod yma.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r dyfynbris ar gyfer paentio'r adeiladau.

### 25.1 Swyddog y Gwasanaethau Profedigaethau

Amlinellodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â Swyddog y Gwasanaethau Profedigaethau a barhaodd i weithio ar ran y gwasanaeth yn ystod y cyfnod yma, er mwyn cynorthwyo â'r cynnydd yn llwyth gwaith y Maes Gwasanaeth.

Trafododd Aelodau rôl Swyddog y Gwasanaethau Profedigaethau a **PHENDERFYNWYD** cadw'r aelod o staff o'r asiantaeth.

### 25.2 Ystadegau a Chyflawniad

Rhannodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau’r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ystadegau a'r ffigurau cyflawniad sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlosgfa ers y cyfarfod diwethaf.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn y taflenni.

## 26 DATGANIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020 (YN AMODOL AR ARCHWILIAD) A DIWEDDARIAD YNGLŶN Â MONITRO CYLLIDEB CHWARTER 1 2020/21

Trafodwyd adroddiad y Trysorydd gan yr Aelodau.

Cafodd aelodau wybodaeth mewn perthynas â'r materion:

- Cyflawniad ariannol a thrafodion cronfeydd mae modd eu defnyddio
- Mantolen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020
- Gweddillion y Gronfa gyffredinol 2014/15 hyd at 2019/20

Yn dilyn ystyried a thrafod y mater, gan hynny, **PENDERFYNWYD –**

(1) Nodi'r adroddiad.

(2) Nodi'r Datganiad Blynyddol wedi'i archwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

(3) Bod Cadeirydd y Cydbwyllgor yn llofnodi'r Adran Cymeradwyo ac Ardystio sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol.

(4) Nodi a chymeradwyo'r Adroddiad Terfynol yr Archwiliad Mewnol

(5) Nododd Aelodau adroddiad Monitro Cyllideb Chwarter 1 2020/21 a'i gymeradwyo.

## 27 MATERION BRYS

Mewn perthynas ag ymholiad ynglŷn â sut mae staff yn cael eu cefnogi yn ystod y pandemig, rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau wybod bod staff wedi cyflawni asesiad risg i gadarnhau unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnyn nhw a hefyd i sicrhau bod digon o gymorth yn cael ei ddarparu gan Uned Iechyd Galwedigaethol yr Awdurdod.

Holodd yr Aelodau a oedd dyddiad wedi'i drefnu ar gyfer y Gwasanaeth Garolau sy'n cael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2020.

Atebodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau trwy ddweud ei bod hi'n mynd i wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.20pm**

**D. Isaac**
**Cadeirydd**